Ymgeisydd CAR Cymru

PAPUR BRIFFIO 2

Y stori hyd yma…

Yn gyntaf oll: mae 'diolch yn fawr' yn ddyledus i bob un ohonoch sydd wedi cysylltu â ni yn dilyn y papur briffio cyntaf, i ofyn am ragor o wybodaeth, gofyn am gael eich cynnwys ar restr bostio (Ymgeisydd) CAR Cymru, neu i'n hysbysu am rai o'ch gweithgareddau Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang (ADCDF). Hoffem ddiolch hefyd i'r rheiny ohonoch sydd wedi dychwelyd llythyrau yn mynegi cefnogaeth i Ymgeisydd CAR Cymru. Rydym wedi cael ymateb da, ac mae'r rhain yn cryfhau'n hachos ag archwilwyr ceisiadau Prifysgol y Cenhedloedd Unedig. Os nad ydych eisoes wedi dychwelyd llythyr, ac yn dymuno gwneud hynny, cysylltwch â ni drwy e-bost gan nodi manylion eich sefydliad ar waelod y llythyr cefnogaeth, neu er mwyn gofyn am lythyr heb ei lofnodi os nad ydych wedi gweld un eisoes (cysylltwch â carcymru@abertawe.ac.uk). Edrychwn ymlaen at glywed gennych, nid yw'n rhy hwyr!

Rydym yn croesawu pob cyfraniad gennych, ac mae'n argoeli'n dda am CAR Cymru egnïol tua'r dyfodol, unwaith y bydd y statws hwnnw wedi'i ddyfarnu i ni. Diolch i chi.

Mae'r cam cyntaf o ddarparu dogfennau gwneud cais am statws CAR i Gymru wedi'i gwblhau, â'r dogfennau wedi'u cyflwyno i Athrofa Astudiaethau Uwch-Prifysgol y Cenhedloedd Unedig (UNU-IAS) yn Japan ar amser. Bu'r Grŵp Llywio Interim yn cydweithio ar hyn, ac wedi llawer o waith caled gan bob un, cwblhawyd y gwaith erbyn y dyddiad cau ar 15 Fehefin.

Bydd y dogfennau cais nawr yn cael eu harchwilio gan y Ganolfan Gwasanaeth CAR cyn cael eu hanfon at Bwyllgor Cymheiriaid Ubuntu i'w cymeradwyo. Cyn i hynny ddigwydd rydym yn rhagweld y bydd gofyn am ddiwygio rhywfaint ar y ddogfennaeth ac/neu y bydd angen cyflwyno gwybodaeth ychwanegol dros yr wythnosau nesaf, a byddwn yn gweithio gyda'r Grŵp Llywio Interim a'r rhanddeiliaid yn ôl y gofyn i sicrhau bod ein cais yn mynd rhagddo'n hwylus. Rydym yn disgwyl cael gwybod am ganlyniad y cais tua diwedd y flwyddyn. Nid ydym yn rhagweld unrhyw broblemau mawr o ran cael cymeradwyaeth am statws CAR, ac mewn sawl modd rydym yn ystyried bod Cymru mewn sefyllfa flaengar yn fyd-eang yn nhermau ei drefniadau ADCDF.

Cytunwyd yng nghyfarfod diwethaf y Grŵp Llywio Interim y dylai Prifysgol Abertawe ymgymryd â'r rôl o Ysgrifenyddiaeth, gan ofalu am y gwaith gweinyddol parhaus a ddeuai yn sgil cais llwyddiannus, ynghyd â'r gwaith gweinyddol mewn perthynas â'r camau o sefydlu a gweithredu CAR Cymru'r dyfodol. O wneud hynny bydd yr Ysgrifenyddiaeth yn parhau i weithio'n agos gyda, ac ar ran, y sawl a fyddai'n rhan o'r Grŵp Llywio ac yn rhanddeiliaid.

Yn y cyfnod rhwng nawr a'r penderfyniad tua diwedd y flwyddyn fe fydd y Grŵp Llywio Interim a'r Ysgrifenyddiaeth wrthi'n brysur yn sefydlu systemau cyfathrebu a gweinyddol effeithiol, ac yn rhoi ystyriaeth ofalus i faterion yn ymwneud â goruchwyliaeth (yn cynnwys rheoli). Mae'r gwaith hwn i gyd wedi dechrau, ond mae llawer ar ôl i'w wneud er mwyn sicrhau ein bod yn barod â CAR Cymru ddichonadwy erbyn dechrau'r flwyddyn nesaf.

Felly, sut mae CAR Cymru yn dod yn ei flaen?

Diolch eto i'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod yr ymgynghoriadau, mae gennym nawr Ddatganiad o Weledigaeth, a fydd yn arweiniad cyffredin i ni pan fyddwn yn dymuno cyfrannu at genhadaeth ADCDF cydunol dan nawdd CAR Cymru'r dyfodol:

Mae CAR Cymru yn hwyluso cydweithio er mwyn ymchwilio, datblygu a hyrwyddo Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang, fel bod y dysgu hwn yn ganolog i'r weledigaeth o greu Cymru gynaliadwy.

Rydym wedi egluro'r meini prawf sydd angen eu bodloni gan weithgareddau a phrosiectau fyddai'n dymuno cydnabyddiaeth gan CAR Cymru'r dyfodol. Gyda'i gilydd mae'r rhain yn disgrifio nodweddion ansoddol allweddol y prosiectau, a fydd yn gwahaniaethu gweithgareddau CAR oddi wrth weithgareddau ADCDF eraill ar draws Cymru. Wrth osod y meini prawf hyn, ymdrecha CAR i annog cydweithio adeiladol a chyflenwol rhwng y rhanddeiliaid er mwyn cefnogi datblygu a darparu ADCDF effeithiol o'r safon uchaf ar draws Cymru. Yn benodol, dylai prosiectau CAR Cymru gynnwys cydweithio, elfen o ymchwil a'u bod yn ymwneud â ADCDF trawsffurfiol. Fe fydd CAR Cymru'r dyfodol felly yn ein herio ni i gyd i wella safon ac effeithiolrwydd ein gwaith ADCDF.

Ar hyn o bryd mae'r amcanion tymor byr yn canolbwyntio ar sicrhau bod mecanwaith cadarn a chefnogol yn ei le drwy osod strwythur rheoli CAR sydd wedi ei ystyried yn fanwl, gan gynnwys Amodau Gorchwyl eglur a phriodol ar gyfer y Grŵp Llywio a'r Ysgrifenyddiaeth. Ar yr un pryd, ac yn y tymor canolig a thu hwnt, fe fydd yr amcanion wrth gwrs yn cyfannu gwir waith y CAR…

Gweithgareddau a phrosiectau CAR Cymru

Mae diddordeb wedi'i fynegi eisoes yng ngwaith y CAR Cymru arfaethedig, a rhanddeiliaid wedi cynnig gweithgareddau a phrosiectau posibl. Yn wir, gan ddibynnu ar y cyllid, rydym yn rhagweld y bydd rhywfaint o'r gwaith yn cael ei ddechrau cyn y penderfyniad - wrth gwrs fe fydd ADCDF yng Nghymru yn parhau tra ein bod yn aros am gydnabyddiaeth i CAR Cymru - fel y mae wedi gwneud ar hyd yr amser! Rydym wedi dechrau casglu gwybodaeth ynglŷn â phrosiectau cyfredol ADCDF yng Nghymru, fel sy'n ofynnol ar gyfer y ddogfennaeth cais.

Yn ein papur briffio nesaf byddwn yn cynnwys ffurflen pro fforma Prosiect CAR Cymru, ynghyd â nodiadau ar sut i'w chwblhau. Mae'r ffurflen wrthi'n cael ei drafftio, a'i phwrpas fydd casglu'r wybodaeth amlwg rydyn ni'n credu a fydd yn gymorth i CAR Cymru'r dyfodol fynd ati i adlewyrchu'r ystod a chyfoeth o weithgaredd ADCDF sydd i'w gael yng Nghymru, ac i fanteisio'n llawn ar yr egni, brwdfrydedd, gwybodaeth sylweddol a'r arbenigedd y mae'n ei gynrychioli.

Ar gyfer y cais bu'n rhaid i ni ystyried prosiectau ADCDF y dyfodol yn ogystal â'r rhai cyfredol. Mae'r broses ymgynghori wedi darparu gwybodaeth hanfodol ar gyfer y rhan hon o'r ddogfennaeth cais. Er enghraifft, mae ein hamcanion yn cynnwys adnabod a chydnabod Gweithgorau themâu penodol. Mae hyn ar waith, wedi'i arwain gan ganlyniadau'r digwyddiadau ymgynghori a gynhaliwyd ledled Cymru yn 2008. Yn ei dro, wrth i ni ddatblygu'r cysyniad o Weithgor CAR Cymru, byddwn yn dychwelyd atoch er mwyn helpu i'w symud ymlaen, gan ein bod yn rhagweld y bydd y Grwpiau hyn yn cynrychioli canolbwynt allweddol i weithgaredd CAR. Unwaith y bydd y Gweithgorau cyntaf wedi'u nodi, fe fydd y sylw yn newid i ganolbwyntio ar eu rhedeg yn effeithiol a'u canlyniadau.

Ffocws arall sy'n cael ei argymell ar gyfer rhaglen waith CAR Cymru'r dyfodol yn y tymor canolig yw canolbwyntio ar hyrwyddo a chynorthwyo arferion sydd wedi'u seilio ar dystiolaeth yn ADCDF, i ledaenu canlyniadau ymchwil, gwybodaeth, profiad ac arfer da drwy'r rhwydwaith CAR yng Nghymru a thu hwnt.

Beth nesaf?

Wrth i'n cais fel Ymgeisydd CAR Cymru a'r gwaith paratoadol sydd ynghlwm â hynny fynd yn ei flaen, byddwn yn dal ati i ddosbarthu Papurau Briffio CAR Cymru. (Unwaith y caiff statws CAR ei gymeradwyo rydym yn bwriadu newid ein gohebiaeth i fod yn gylchlythyr mwy sylweddol wedi'i ysgrifennu gan, ac ar

gyfer, ein holl rhanddeiliaid.) Yn y cyfamser, yn ystod y cam hwn o wneud cais ac aros am gymeradwyaeth, fel y nodwyd uchod, byddwn ar gyfnodau priodol yn y broses yn gofyn am eich sylwadau eto. Os byddwch yn methu unrhyw un o'r Papurau Briffio, ac yn dymuno cael gafael ar y wybodaeth, neu os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch, neu eich bod yn dymuno rhannu eich sylwadau ynghylch unrhyw beth a godwyd, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni yn carcymru@abertawe.ac.uk. Mae'n hanfodol ein bod yn cadw mewn cysylltiad ystyrlon â'r rhanddeiliaid; ar ddiwedd y broses hon bydd yn rhaid ein bod wedi dod at lansio CAR Cymru ddichonadwy yr oedd pawb yn dymuno ei chael, sy'n ddealladwy i bawb, yn eiddo i bob un ohonom, a bod ei rôl gyflenwol, ynghyd â sut y gallwn ni gyd gyfrannu at ei datblygu a'i chanlyniadau, yn eglur.

A oes cwestiynau?

Ysgrifenyddiaeth Ymgeisydd CAR Cymru
Prifysgol Abertawe